# CANEUON Y DEGWM

yng ngofal
D. G. Lloyd Hughes o Bencader

Adeg diddorol, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru, tua diwedd y ganrif ddiwethaf, oedd cyfnod yr ymgyrchoedd yn erbyn y degwm. Yn ei gysgod yr oedd yr hyn a elwid yn ymgyrch Pwnc y Tir.

Treth oedd y degwm, un â'i gwreiddiau'n ymestyn yn ôl at gyfnod yr Hen Destament. Sylfaenwyd hi ar arferiad gan bobl braf eu byd i waddoli neu i anrhegu'r eglwys; dros amser fe drodd yr arferiad gwirfoddol yn drefn sefydledig wrth i'r eglwys hawlio'r ddegfed ran o eiddo neu gynnyrch. Gwaith tra llafurus oedd casglu'r degwm ac adeilad pwysig mewn plwyf oedd yr Ysgubor Ddegwm.

Yn 1836 sicrhaodd y llywodraeth Ddeddf Adbryniant y Degwm, i hwyluso'r gwaith o gasglu'r dreth trwy ddarparu cyfundrefn o daliadau blynyddol, yn dibynnu ar y naill law ar rent y tir ac, ar y llaw arall, ar gyfartaledd pris yr ŷd dros gyfnod o saith mlynedd. Mewn llai na deng mlynedd bu cwynion cryf yn erbyn y degwm newydd oherwydd tlodi yng nghefn gwlad. Credir erbyn hyn bod gwrthwynebiad i'r degwm yn rhan o gefndir Terfysg Rebeca.

Gan mai treth eglwysig, yn ôl ei chefndir, oedd y degwm, a mwyafrif poblogaeth Cymru'n Anghydffurfwyr, bu'r gwrthwynebiad iddi'n un o sylfeini'r ymgyrch am Ddatgysylltu'r Eglwys Wladol. At hynny, yr oedd y galw am ddiwygio perchnogaeth tirol, o dan arweiniad Thomas Gee ac E. Pan Jones, gyda chysylltiad agos gan mai eglwyswyr oedd y tirfeddianwyr mawr.

Erbyn yr 1880au mynegwyd anfodlonrwydd efo canlyniadau'r adolygiad achlysurol yng ngwerth y degwm. Honnwyd nad oedd hwnnw'n adlewyrchiad teg o'r dirwasgiad yng nghefn gwlad yn ystod y cyfnod hwnnw. Datblygodd y cwynion yn alwad am gwtogiad hyd at 10% yn y dreth. Bu rhai offeiriaid yn ddigon grasol i ildio ond bu'r rhelyw yn gyndyn iawn i ystyried dim, a phan wrthodwyd cais am ostyngiad fe ymatebwyd ledled y wlad trwy fygwth atal y taliad blynyddol yn llwyr.

Y cam nesaf gan hawlwyr y degwm oedd cychwyn proses i atafaelu rhan o eiddo'r gwrthodwyr i'w werthu trwy arwerthiant cyhoeddus. Cynhyrchwyd llawer o ddrwgdeimlad trwy'r broses hon a gwaethygwyd pethau trwy gipio, nid yn unig yr anifeiliaid gorau ar fferm, ond llawer mwy na gwerth y ddyled.


Cynhyrfwyd y dyfroedd trwy alw am bresenoldeb yr heddlu i gadw'r heddwch. Medrai hawlwyr y degwm wneud hynny, wrth gwrs, am eu bod yn gweithredu yng nghysgod deddf seneddol. Mewn rhai ardaloedd, yn y gogledd yn arbennig, aethpwyd mor bell â galw'r fyddin allan. Cafodd yr holl gynnwrf enw da, Rhyfel y Degwm.

Pan glywid fod arwerthiant ar y gorwel, arferai tyrfaoedd ymgasglu, weithiau am oriau cyn yr amser penodedig. Gwelid cannoedd yn aml, weithiau dros fil, yn y cyfarfodydd hynny gyda'r heddlu'n cadw llygaid gwyliadwrus arnynt. Pan ddelai'r casglwyr i'r golwg fe'u dilynid o fferm i fferm gan y gwrthwynebwyr gan weiddi, hwtian ac oernadu a lluchio wyau, cerrig, tywyrch a chlytiau pridd. Cludid arfau hefyd; y ffermwyr yn dewis ffyn, a phastynnau gan y gweision, y gwahanol fathau o arfau'n adlewyrchu safleoedd cymdeithasol y naill a'r llall. Weithiau fe gafwyd ymladd rhwng yr heddlu a'r gwrthwynebwyr ac fe anafwyd llawer.

Tybed ai ymboeni am yr awyrgylch fygythiol ar ddydd arwerthiant a symbylodd gylchgrawn wythnosol pwysicaf Cymru ar y pryd, *Baner ac Amserau Cymru*, i gyhoeddi cystadleuaeth yn 1887 i sicrhau nifer o ganeuon addas i'w canu mewn cyfarfodydd yn ymwneud â'r degwm. Papur Thomas Gee oedd *Y Faner*, wrth gwrs, ac yr oedd ef yn arweinydd y mudiad gwrth ddegymol. Mae'n debyg y gwelir ôl ei law ef yn glir ar y gystadleuaeth, ac er i'r papur gyhoeddi mai anelu ydoedd am ganeuon gwladgarol a chwaethus, i'w defnyddio mewn cyfarfodydd llenyddol, yn ogystal ag mewn cyfarfodydd perthynol i'r degwm a datgysylltiad yr Eglwys, y mae'n debygol y gobeithid clywed rhai o'r caneuon yn diasbedain trwy fro yn yr awyr agored ar fore arwerthiant er mwyn creu sŵn mwy dymunol na hwtian, er enghraifft, neu oernadu.

Nid oedd clywed caneuon gan ymgyrchwyr yn ddigwyddiad hollol newydd yng Nghymru, oblegid yn ôl cyfrol ddiddorol Emlyn Lewis Jones *Gwaedu Gwerin* (Gee, 1987) defnyddid rhai gan Beca dros ddeugain mlynedd yn gynharach, a bu cân hefyd gan y Siartwyr. Bu traddodiad hir o argraffu baledi, wrth gwrs, ond y mae'n debygol mai arbrawf newydd sbon oedd penderfyniad Gee i argraffu cyfrol o ganeuon protest.

Cyhoeddwyd y gystadleuaeth yn rhifyn 26 Chwefror 1887 o'r *Faner*, trwy gynnig gwobrau o 10 swllt a 5 swllt am y ddwy gân orau ar bob un o'r chwe mesur canlynol — 'Ymdaith Gwŷr Harlech'; 'Llwyn Onn'; 'Hen Wlad fy Nhadau'; 'Ar hyd y nos';


CANEUON Y DEGWM.

CYFANSODDIADAU BUDDUGOL

AR Y MESURAU

"Difyrwch Gwyr Harlech."
"Hen Wlad fy Nhadau."
"Ar hyd y Nos."
"Llwyn Onn."
"Gwnewch bobpeth yn Gymraeg."
"Mae Robin yn Swil."

O "*BANER AC AMSERAU CYMRU.*"

DINBYCH:
CYHOEDDEDIG GAN T. GEE A'I FAB.
1887.

Pris 1c.

XPB
1293. B21

'Mae Robin yn swil' a 'Gwnewch bopeth yn Gymraeg', pob cân i gynnwys pedwar pennill o leiaf.

Anfonwyd 68 o ganeuon i'r gystadleuaeth a dechreuwyd cyhoeddi'r beirniadaethau ar 66 ohonynt, yn rhifyn 23 Mawrth 1887 o'r *Faner*. Ni wyddys pwy oedd y beirniad ond nodwyd mai dychanol oedd y nodwedd amlycaf a ddisgwylid a hynny a gafwyd yn yr hyn a elwid yn gystadleuaeth ragorol. Ymddengys nad mater hawdd oedd dewis y goreuon a theimlai'r beirniad nad oedd modd osgoi rhannu'r wobr mewn sawl achos, a hynny a wnaed.

O safbwynt y dewis o alawon ar gyfer y caneuon, ar y brig, gyda 17 o ganeuon, oedd 'Hen Wlad fy Nhadau', prawf go dda ynddo'i hun nad oedd ein hanthem genedlaethol yn cael ei hystyried yn un gysegredig yn y cyfnod hwnnw. Yr ail, efo 16 o ganeuon, oedd 'Mae Robin yn swil', ac 'Ar hyd y Nos' yn drydydd efo 14. Y lleiaf poblogaidd (5 o ganeuon) oedd 'Rhyfelgyrch Gwŷr Harlech'. Tybed a ddywed poblogeiddrwydd rhai o'r mesurau rywbeth amdanom fel cenedl?

Cyhoeddwyd y caneuon buddugol, 16 ohonynt, yn *Y Faner* dros gyfnod o wythnosau, ac yn bamffledyn bychan pris 1 geiniog yn ystod mis Mai, 1887 gan Wasg Gee. Dim ond am un copi o'r pamffledyn, hwnnw sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol, y gwyddys. Tybed a ŵyr unrhyw ddarllenwr o'r *Casglwr* am gopi arall?

Er bod rhaid chwilio'n go ofalus am dystiolaeth, gwelwyd cyfeiriadau at eu canu yn Ninbych, Llangwm, Llansannan a Bodfari yn *Y Faner* erbyn canol mis Mehefin, 1887. 'Roedd ambell i gân arall mewn bri hefyd, fel honno o ardal Llangwm yn cynnwys deg o benillion a gyfansoddwyd ar alaw 'Ar Hyd y Nos'. Ni chyfyngwyd honno i Langwm, oblegid fe'i canwyd yn Llansannan yn nechrau Mehefin, 1877. Dyma'r ddau bennill cyntaf:

*Mawr y cynnwrf sydd yn Llangwm,*
*Ding don bel,*
*Mwrog Bach yn claddu'r degwm,*
*Ding don bel;*
*'Roedd yr arch a'r amdo'n barod*
*Dim ond disgwyl am y diwrnod,*
*'Nawr mae'r adeg wedi dyfod,*
*Ding don bel.*

*Meddwl Mwrog Bach mae'n debyg,*
*Ding don bel,*
*Oedd y byddai'n ŵr bonheddig,*
*Ding don bel;*
*Ar ôl hyn caf fod yn farchog*
*Wedi derbyn y fath gyflog;*
*Ond cadd glongcwy ar ei benglog,*
*Ding don bel.*